

2023 Rhif (Cy.)

2023 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A470
(Cylchfan Coryton, Caerdydd i
Gylchfan Cefn Coed, Merthyr
Tudful) (Terfynau Cyflymder Dros
Dro) 2023

The A470 Trunk Road (Coryton
Roundabout, Cardiff to Cefn Coed
Roundabout, Merthyr Tydfil)
(Temporary Speed Limits) Order
2023

Gwnaed 22 Rhagfyr 2023

Made 22 December 2023

Yn dod i rym 1 Ionawr 2024

Coming into force 1 January 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y gefnffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cylchfan Coryton, Caerdydd i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful) (Terfynau Cyflymder Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ionawr 2024.

1. The title of this Order is the A470 Trunk Road (Coryton Roundabout, Cardiff to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil) (Temporary Speed Limits) Order 2023 and this Order comes into force on 1 January 2024.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw—

2. In this Order—
"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 1 Ionawr 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw'r darn o gefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig sy'n ymestyn o ganolbwynt Cylchfan Coryton, Caerdydd i ganolbwynt Cylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful, gan gynnwys yr holl ffyrdd ymuno ac ymadael rhwng y lleoliadau hyn;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 i'r Gorchymyn hwn.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A470 Cardiff to Llangurig trunk road that extends from the centre-point of Coryton Roundabout, Cardiff to the centre-point of Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil, including all exit and entry slip roads between these locations;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 06:00 hours on 1 January 2024 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 30 mph on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order.

4. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 mph on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order.

5. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 mph on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

Cymhwyso

6. Nid yw'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Atal dros dro

7. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

22 Rhagfyr 2023

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Application

6. The restrictions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Suspension

7. Any statutory provisions regulating the speed of motor vehicles on the lengths of the trunk road specified in article 2 of this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3, 4 and 5 of this Order apply.

Duration of this Order

8. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

22 December 2023

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government